# BRIFFIO POLISI



## DIWEDDARIADAU POLISI TAI

- Gweledigaeth Ugain Mlynedd ar gyfer Datblygu
- SACT Cam 2
- Cyfraith Newydd yn Rhoi Mwy o Ddiogelwch i Denantiaid
- Cyllidebau Cymru
- Lloriau - Y diweddariad

## POLISI A DYLANWADU

Mae TPAS Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a llunwyr penderfyniadau allweddol eraill. Rydym yn cyfrannu at newid polisi trwy hysbysu am ddatblygiadau a materion polisi, sianelu profiad ac anghenion tenantiaid a landlordiaid i lunwyr polisi, a gweithio gyda sefydliadau partner i ddylanwadu ar bolisi.

# Gweledigaeth Ugain Mlynedd ar gyfer Datblygu

Ar y 24 Chwefror, lansiodd Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol weledigaeth ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040, o’r enw ‘Cymru'r Dyfodol’. Mae hwn yn nodi ble dylid datblygu tai, cyflogaeth a seilwaith i gefnogi Cymru i gyflawni datgarboneiddio a hinsawdd gadarn; yn ogystal â gwella iechyd a lles yn ein cymunedau.

**Pwyntiau allweddol:**

- Yn canolbwyntio ar ddatblygu ein hardaloedd trefol a sicrhau bod cartrefi, swyddi a gwasanaethau yn cael eu lleoli o fewn yr un ardal
- Yn nodi Wrecsam a Glannau Dyfrdwy; Caerdydd, Casnewydd a’r Cymoedd; a Bae Abertawe a Llanelli fel ardaloedd pwysig yn genedlaethol o ran twf
- Yn rhoi mwy o rym i gynghorau i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer ardaloedd siopa newydd y tu allan i drefi, a datblygiadau eraill y byddai’n well eu lleoli yng nghanol trefi;
- Yn amlinellu ardaloedd blaenoriaeth newydd o ran datblygiadau ynni gwynt a solar ar raddfa fawr

TPAS CYMRU
You matter | Ti’n cyfri

# SACT CAM 2

Cyflwynwyd Safon Ansawdd Tai Cymru yn 2002 i sicrhau bod yr holl dai cymdeithasol yng Nghymru (cartrefi ar rent gan gyngor lleol neu gymdeithas dai) o ansawdd da, yn ddiogel, ac yn addas ar gyfer anghenion tenantiaid. Wrth i ni agosáu at ddiwedd cam presennol y rhaglen, mae mwyafrif y cartrefi cymdeithasol bellach yn cyrraedd y safon. Mae'r rhaglen wedi gwella cartrefi a'u gwneud yn iachach ac wedi darparu hyfforddiant a buddsoddiad mewn cymunedau.




Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn gwerthuso'r safon bresennol ac roedd hyn yn cynnwys arolwg tenantiaid yn Hydref 2020. Nod y gwerthusiad yw sicrhau ein bod yn dysgu'r gwersi o'r gorffennol, yn cynnal y gwelliannau hyd yma ac yn gwneud y safon yn addas ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Bydd hyn yn cynnwys mwy o ofyniad effeithlonrwydd ynni ar gyfer cartrefi. Ein nod yw lansio'r safon newydd yn 2022.

TPAS CYMRU
You matter | Ti'n cyfri

# Cyfraith Newydd yn Rhoi Mwy o Ddiogelwch i Denantiaid

Ar 23 Chwefror, pasiwyd deddfwriaeth newydd yn y Senedd, a fydd yn rhoi mwy o ddiogelwch a sefydlogrwydd i denantiaid yn eu cartrefi. Bydd y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) hefyd yn dod â mwy o eglurder ar gyfrifoldebau landlordiaid a thenantiaid, gan helpu i osgoi anghytundebau ac anawsterau.

Mae'r newidiadau yn golygu, o wanwyn 2022, y bydd contractau rhentu yng Nghymru yn newid fel bod:

- Bydd gan denantiaid ddiogelwch a sefydlogrwydd contract 12 mis o leiaf;
- Bydd y cyfnodau hysbysu byrraf a ganiateir yn cael eu hymestyn o ddau fis i chwe mis mewn achosion o "droi allan heb fai" – a bydd landlordiaid ond yn gallu cyflwyno hysbysiad chwe mis ar ôl i'r tenantiaid symud i mewn;
- Bydd contractau rhentu yn cael eu symleiddio a'u safoni a bydd contractau enghreifftiol ar gael;
- Er y bydd y cyfnod hysbysu y mae'n rhaid i landlordiaid ei roi yn hirach, byddant yn dal i allu ceisio adfeddu eu heiddo os yw tenant yn torri ei gontract.

**Gweler y datganiad i'r wasg yma:**

https://llyw.cymru/cyfraith-newydd-wedii-phasio-i-roi-rhagor-o-ddiogelwch-i-denantiaid-yng-nghymru

TPAS CYMRU
You matter | Ti'n cyfri

# Cyllidebau Cymru 2021-2022

Ar 2 Mawrth, cyhoeddodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021 -22. Maent wedi enwi hyn yn 'Diogelu, Adeiladu, Newid' sy'n adlewyrchu'r ymrwymiad i dai, ailadeiladu, datblygu, gwasanaethau cyhoeddus, yr economi ac wrth gwrs, pandemig COVID-19.

O ran y Grant Tai Cymdeithasol, mae £50 miliwn yn ychwanegol, gan greu cyfanswm o £250 miliwn yn 2021- 22. 5 mlynedd yn ôl, roedd y buddsoddiad yn £67 miliwn, gan ddangos y lefel torri record o fuddsoddiad. Bydd y buddsoddiad hwn yn galluogi i'r 20,000 o gartrefi newydd, fforddiadwy ac ynni effeithlon y mae mawr eu hangen gael eu hadeiladu dros y pum mlynedd nesaf.

**Pwyntiau allweddol:**

- Cyllid ychwanegol o £50m ar gyfer Grant Tai Cymdeithasol
- Buddsoddiad o £50m yn y rhaglen ôl-ffitio optomedig
- £3m ychwanegol i reoliadau Diogelwch Adeiladau
- £12m i gefnogi addasiadau i bobl anabl, gan roi hwb i'r Grant Addasiadau Corfforol.
- £206m ar gyfer cronfa Caledi Llywodraeth Leol. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion, profion cartrefi gofal a chymorth digartrefedd.

**Cewch wybod fwy yma:** https://llyw.cymru/cyllideb-derfynol-2021-i-2022

# Lloriau- Darparu lloriau mewn tai cymdeithasol

Yn dilyn lansio ein hadroddiad Lloriau, rydym wedi bod yn gweithio gyda LlC i helpu i ddylanwadu ar SATC i sicrhau bod lloriau'n hanfodol. Mae'r sgyrsiau hyn yn parhau. Yn ogystal â hyn, rydym wedi bod yn gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Landlordiaid Awdurdodau Lleol i symud ymlaen gyda rhoi lloriau i mewn eiddo gwag. Mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda nifer o landlordiaid yn ymrwymo cyllideb ar gyfer hyn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Gofynnwyd i ni hefyd gynnal sesiynau yn Lloegr i godi ymwybyddiaeth o'r mater hwn.



Os ydych chi am fod yn rhan o banel llais tenantiaid mwyaf Cymru, a dweud eich dweud wrth lunio polisi cenedlaethol, ymunwch â'n Panel Pwls Tenantiaid. Llais tenantiaid yng Nghymru yw Pwls Tenantiaid. Fe'i crëwyd gan TPAS Cymru ac fe'i cefnogir gan Lywodraeth Cymru. Y prif nod yw darganfod beth sydd bwysicaf i denantiaid yng Nghymru. Defnyddir canlyniadau eu harolygon gan Lywodraeth Cymru a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i greu polisi tai sy'n gweithio i denantiaid, ac sy'n gwneud tai yng Nghymru yn fwy diogel a thecach.

**Cliciwch yma i ymuno: www.tpas.cymru/pwls**

TPAS CYMRU
TENANT PULSE
PWLS TENANTIAID